

## Myfi, fi fy hun, fi

### Trosolwg

---

Bydd dysgwyr yn:

- Ymchwilio i ffyrdd gwahanol y mae pobl yn portreadu eu hunain a'r rhesymau pam
- creu hunanbortread
- ysgrifennu hunangofiant
- Edrych ar ffyrdd dyfeisgar eraill o bortreadu eu hunain (ar ffurf ysgrifenedig yn ogystal â gweledol, drwy eiriau cân, ffilm).

### Cyfoethogi

---

Mae cyfleoedd ar gyfer cyfoethogi yn cynnwys cydweithio ag artist, ffotograffydd ac/neu awdur

### Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

---

Dyma brif rannau'r Cwricwlwm y mae'r gweithgaredd cyfoethog hwn yn ymdrin â nhw:

Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLIRh)  
Celf a Dylunio  
Saesneg  
Cymraeg  
Technoleg Gwybodaeh a Chyfathrebu (TGCh)  
Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh)

## Adnoddau sy'n cael eu cynnwys gyda'r gweithgaredd hwn

Adnodd 1: Enghreifftiau o ddarnau hunangofiannol gan awduron o Gymru

## Adnoddau y mae angen sicrhau eu bod ar gael

Cyfrifiadur a mynediad i'r rhyngwyd

## Paratoi

Ar gyfer Tasg 1, casglwch ynghyd amrywiaeth o bortreadau, hunanbortreadau a darnau o waith hunangofiannol i rannu gyda'r dosbarth ac i ysgogi trafodaeth.

Tasg 1: Beth rydym yn ei wybod ynghylch sut a pham mae pobl yn portreadu eu hunain?	Cydweithredu ac Adnoddau	Llwybrau Posibl y FflIRh
<p><b>TRAFODWCH</b> sut a pham y bydd pobl yn portreadu eu hunain i'r cyhoedd.</p> <p>Pam y byddai person yn ysgrifennu hunangofiant? yn cael portread ohono ef/ohoni hi ei hun wedi'i baentio neu'n paentio hunanbortread? yn tynnu 'hun-lun'? neu'n cael ei gyfweld ac yn siarad am ei fywyd ei hun?</p> <p><b>DANGOSWCH</b> enghreifftiau i ysgogi trafodaeth, ac annog proses o rannu a chofnodi syniadau (e.e. fel map meddwl)</p> <ul style="list-style-type: none"><li>○ Sut mae pobl yn dangos ac yn dweud wrth y cyhoedd</li></ul>	<p>Gallai 'Boy' gan Roald Dahl fod yn fan cychwyn da neu 'Portrait of the Artist as a Young Dog' gan Dylan Thomas, ond mae Adnodd 1 yn cynnwys awgrymiadau eraill ynghylch darnau hunangofiannol gan awduron o Gymru.</p> <p>Y tu hwnt i Gymru, gallech ystyried darnau o ddyddiaduron Alan Bennett, Laurie Lee (Cider with Rosie); My Family and Other Animals gan Gerald Durrell; The</p>	<p><b>Llythrennedd</b> <b>Llafaredd</b> LLS2: cyflwyno syniadau LLG1: ymateb i eraill LLG3: gwranddo ar ddadleuon a'u nodi LLC1: cymryd rhan mewn trafodaethau LLC2: cynllunio'r ffordd ymlaen</p> <p><b>Darllen</b> DS2: darllen strategaethau a'u dehongli DD1: darllen testunau newydd DD3: canfod a defnyddio gwybodaeth DD4: dehongli ystyr</p>

<p>amdanyn nhw eu hunain?</p> <ul style="list-style-type: none"><li>○ Beth yw <b>hunangofiant</b>?</li><li>○ Ydych chi wedi darllen hunangofiant? Pam wnaethoch chi ddewis darllen yr hunangofiant hwn?</li><li>○ Beth wnaethoch chi ei ddarganfod am y person?</li><li>○ Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cofiant a hunangofiant?</li> <li>○ Beth yw <b>portread</b>?</li> <li>○ Pa bortreadau rydych chi wedi'u gweld? Pam rydych chi'n meddwl bod rhywun wedi paentio/darlunio/tynnu llun o'r person hwn?</li> <li>○ Pam y byddai artist yn creu sawl hunanbortread megis paentiadau niferus Shani Rhys James neu ffotograffau Robert Mapplethorpe?</li> <li>○ Sut mae portread yn wahanol i hunanbortread?</li> <li>○ Beth yw 'hun-lun' ('selfie')?</li> <li>○ Pam rydych chi'n meddwl bod pobl yn tynnu 'hun-lun' ac yn ei roi ar un o'r cyfryngau cymdeithasol?</li></ul> <p>EGLURWCH i'r dysgwyr eu bod yn mynd i bortreadu eu hunain mewn tair ffordd wahanol – drwy gyfrwng celf weledol, llenyddiaeth a ffordd arall o'u dewis nhw.</p>	<p>Diary of Anne Frank ac 'I am Malala' gan Malala Yousafzai</p> <p>Shani Rhys James <a href="http://artuk.org/discover/artworks/view_a_s/grid/search/makers:shani-rhys-james-b1953">http://artuk.org/discover/artworks/view_a_s/grid/search/makers:shani-rhys-james-b1953</a></p> <p>Robert Mapplethorpe (Saesneg) <a href="https://www.aberystwythartscentre.co.uk/sites/aberarts/files/downloads/NGS239%20Artist%20Rooms%20Mapplethorpe%20Education%20Toolkit.pdf">https://www.aberystwythartscentre.co.uk/sites/aberarts/files/downloads/NGS239%20Artist%20Rooms%20Mapplethorpe%20Education%20Toolkit.pdf</a></p> <p>Robert Mapplethorpe (Cymraeg) <a href="https://www.aberystwythartscentre.co.uk/sites/aberarts/files/downloads/NGS538%20Artist%20Rooms%20Mapplethorpe%20Education%20Toolkit_Welsh%20v3.pdf">https://www.aberystwythartscentre.co.uk/sites/aberarts/files/downloads/NGS538%20Artist%20Rooms%20Mapplethorpe%20Education%20Toolkit_Welsh%20v3.pdf</a></p>	<p>DD5: cymharu testunau DYD3: cydgasglu, crynhoi a syntheseiddio DYD4: canfod rhagfarn DYD5: safbwyntiau gwahanol DYD6: gwerthuso cynnwys</p> <p><b>Ysgrifennu</b> YY3: cynllunio gwaith ysgrifennu</p>
--	--	--

Tasg 2: Sut mae creu hunanbortread?	Cydweithredu ac Adnoddau	Llwybrau Posibl y FfLIRh
<p><b>RHANNWCH</b> ddetholiad o hunanbortreadau. Ceisiwch gynnwys enghreifftiau mewn amrywiaeth o arddulliau (e.e. haniaethol, pwyntiliaeth, swrealiaidd) a ffurfiau ar gelfyddyd.</p> <p><b>EDRYCHWCH</b> ar hunanbortreadau o gyfnodau a diwylliannau gwahanol. Ceisiwch gynnwys enghreifftiau neu chwilio am hunanbortreadau ar y rhyngwrdd.</p> <p><b>CYMHARWCH</b> gan ddefnyddio diagram Venn (3 chylch) i gymharu a chyferbynnu tri o'r hunanbortreadau, (e.e. dillad, propiau, mynegiant wyneb, ystum y corff, goleuo, cyfansoddiad).</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Sut mae'r hunanbortreadau hyn yn wahanol? Pa wahanol arddulliau celfyddydol a ddefnyddir?</li> <li>○ Beth yw nodweddion hunanbortread?</li> <li>○ Pa rai o'r hunanbortreadau rydych chi'n eu hoffi fwyaf/leiaf?</li> <li>○ Anogwch y myfyrwyr i roi rhesymau/myfyrion ar eu hatebion.</li> </ul> <p><b>CRËWCH</b> hunanbortread. Gall fod yn baentiad, llun, cerflun, ffotograff neu gollage ffotograffig. Byddwch yn greadigol yn eich defnydd o ddeunyddiau a phrosesau.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Pa gyfrwng fyddwch chi'n ei ddefnyddio i greu eich hunanbortread?</li> <li>○ Pa arddull fyddwch chi'n ei defnyddio?</li> <li>○ Pa artistiaid sydd wedi eich ysbrydoli wrth i chi wneud eich gwaith ymchwil?</li> </ul>	<p>Gallai arlunydd portreadau neu ffotograffydd helpu dysgwyr i ddatblygu eu syniadau a'u gwaith. Ymwelwch ag oriel gelf / amgueddfa leol i edrych ar bortreadau a hunanbortreadau</p> <p><a href="http://www.tate.org.uk/learn/online-resources/glossary/s/self-portrait">http://www.tate.org.uk/learn/online-resources/glossary/s/self-portrait</a></p> <p>Gweler Art UK y BBC - porwch drwy hunanbortreadau. <a href="http://artuk.org/discover/artworks/view_as/grid/search/keyword:portraits--works_auto:self-portraits/page/2">http://artuk.org/discover/artworks/view_as/grid/search/keyword:portraits--works_auto:self-portraits/page/2</a></p> <p>Casgliadau'r Oriol Bortreadau Genedlaethol <a href="http://www.npg.org.uk/collections.php">http://www.npg.org.uk/collections.php</a></p> <p>Amgueddfa Cymru – (chwiliwch yn ôl 'portread' neu enw'r artist – e.e. Brenda Chamberlain. Gwen John ac ati) <a href="http://www.museumwales.ac.uk/art/online/">http://www.museumwales.ac.uk/art/online/</a></p> <p>Van Goch <a href="http://www.vangoghgallery.com/misc/self">http://www.vangoghgallery.com/misc/self</a></p>	<p><b>Llythrennedd</b> <b>Llafaredd</b> LLS2: egluro gwybodaeth a syniadau LLS3: ehangu'r siarad LLG1: gwranddo ar eraill LLG3: gofyn cwestiynau LLC1: trafodaethau</p> <p><b>Darllen</b> DS5: ystod o strategaethau darllen DS8: testunau ar sgrin DD1: darllen testunau newydd DD3: canfod a defnyddio gwybodaeth</p> <p><b>Rhifedd</b> <b>Defnyddio sgiliau rhif</b> Rh8: ffracsiynau Rh11: cymhareb a chyfrannedd</p> <p><b>Defnyddio sgiliau mesur</b> YY1: darllen a graddfeydd mesur</p>

- Pam mae'r rhain yn eich ysbrydoli?

**PARATOWCH** drwy Dynnu ffotograffau a gwneud brasluniau.

Ystyriwch strwythur yr wyneb, dimensiynau gwahanol nodweddion yr wyneb a'u cyfraneddau cymharol.

Gallai dysgwyr archwilio cyfrannau mathemategol y pen a'r wyneb (gweler y ddolen yn y golofn nesaf).

[portrait.html](http://portrait.html)

Salvador Dali

<https://www.salvador-dali.org/museus/teatre-museu-dali/the-collection/138/soft-self-portrait-with-grilled-bacon>

Mae'r ddolen ganlynol yn mynd â chi i gyflwyniad Powerpoint sy'n dangos cyfraneddau mathemategol y pen a'r wyneb

[http://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=8&cad=rja&uact=8&sqi=2&ved=0CD0QFjAH&url=http%3A%2F%2Fteacherweb.com%2FCA%2FTurtleRockElementary%2FCa%2Fmastro%2FFace-mapping.ppt&ei=fYxCVJvOE-OP7AbGkYHYAw&usg=AFQjCNGRUgwg8Zf\\_9kZ2Q7gL2CipfBT35g\\_](http://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=8&cad=rja&uact=8&sqi=2&ved=0CD0QFjAH&url=http%3A%2F%2Fteacherweb.com%2FCA%2FTurtleRockElementary%2FCa%2Fmastro%2FFace-mapping.ppt&ei=fYxCVJvOE-OP7AbGkYHYAw&usg=AFQjCNGRUgwg8Zf_9kZ2Q7gL2CipfBT35g_)

tiwtorial fideo ar greu hunanbortreadau ac ystyried cyfraneddau

	<a href="http://www.youtube.com/watch?v=WROSZ6803cE">http://www.youtube.com/watch?v=WROSZ6803cE</a> .	
<b>Tasg 3:Ysgrifennu amdanoch chi eich hun</b>	<b>Cydweithredu</b>	<b>Llwybrau Posibl y FflIRh</b>
<p><b>ARCHWILIWCH</b> ac ystyriwch arddulliau gwahanol o greu hunanbortread llenyddol. Edrychwych ar hunangofiant yn Nhasg 1. Gallech hefyd edrych ar ddyddiaduron, llythyron, barddoniaeth.</p> <p><b>DADANSODDWCH</b> nodweddion ac arddulliau gwahanol fathau o hunanbortreadau llenyddol. Defnyddiwch ddiagram Venn (2 gylch) i gymharu a chyferbynnu dau fath gwahanol o bortread llenyddol.</p> <p>Defnyddiwch ddiagram Venn (2 gylch) i gymharu a chyferbynnu dau fath gwahanol o bortread llenyddol.</p> <p>Cwestiynau posibl:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Pa wahanol bortreadau llenyddol rydych chi wedi eu harchwilio? Beth oedd nodweddion y portreadau hyn?</li> <li>○ Sut oedd y portreadau'n wahanol/yn debyg?</li> <li>○ Pa fath o iaith y mae pobl yn ei defnyddio wrth ysgrifennu amdanyn nhw eu hunain? Pam hynny?</li> <li>○ Pa bortread a roddodd y mwyaf o wybodaeth i chi am y person?</li> <li>○ Pa rai o'r portreadau hyn wnaethoch chi eu mwynhau fwyaf?</li> </ul> <p><b>TRAFODWCH</b> a rhannwch syniadau am sut y byddech yn creu portread llenyddol ohonoch chi eich hun.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Beth rydych chi eisiau ei ddweud wrth bobl amdanoch chi eich hun?</li> <li>○ Pa ddelwedd ohonoch chi eich hun rydych chi eisiau ei</li> </ul>	<p>Gwahoddwch i'r ysgol awdur sydd â phrofiad o ysgrifennu cofiannau, neu wneuthurwr/wraig rhaglenni nodwedd neu ffilm, sydd hefyd â phrofiad o greu astudiaethau cofiannol o bobl.</p> <p>Mae gwaith Dylan Thomas – 'Portrait of the Artist as a Young Dog' yn bortread byw o blentyndod. Gwrandewch ar ddarn o'r gwaith yma:</p> <p><a href="http://www.amazon.co.uk/dp/B00697CT7A/ref=dp_bookdesc_audio">http://www.amazon.co.uk/dp/B00697CT7A/ref=dp_bookdesc_audio</a></p> <p>Ystyrir bod David Copperfield yn un o nofelau mwyaf hunangofiannol Charles Dickens.</p> <p><a href="http://etc.usf.edu/lit2go/166/david-copperfield/2935/chapter-1-i-am-born/">http://etc.usf.edu/lit2go/166/david-copperfield/2935/chapter-1-i-am-born/</a></p>	<p><b>Llythrennedd</b> <b>Llafaredd</b> LLS2: cyflwyno syniadau LLG1: ymateb i eraill LLG3: gwranddo ar ddadleuon a'u nodi LLC1: cymryd rhan mewn trafodaethau LLC2: cynllunio'r ffordd ymlaen</p> <p><b>Darllen</b> DS2: gwneud synnwyr o destun DS5: ystod o strategaethau darllen DS8: dewis testunau ar sgrin DD1: darllen testunau newydd DD3: canfod a defnyddio gwybodaeth DD4: dehongli ystyr DD5: cymharu testunau DYD3: cydgasglu, crynhoi a syntheseiddio DYD4: canfod rhagfarn DYD5: safbwyntiau gwahanol DYD6: gwerthuso cynnwys</p> <p><b>Ysgrifennu</b> YY1: ysgrifennu at ddibenion gwahanol YY2: defnyddio manylion YY3: cynllunio gwaith ysgrifennu YY4: ysgrifennu ar sgrin YY5: adolygu a gwella gwaith</p>

phortreadu?

- Beth fyddwch chi'n ei gynnwys yn eich portread?
- Sut fydddech chi'n gallu portreadu eich hun mewn ffordd lenyddol?
- Ym mha ffordd y byddwch chi'n dewis portreadu eich hun? Pam dewis y ffordd hon?
- A fydd y ffordd hon o bortreadu eich hun yn cyfleu'r ddelwedd rydych chi eisiau ei chyfleu? Pam?

Ewch ati i **YSGRIFENNU** eich darn hunangofiannol eich hun mewn arddull o'ch dewis. A fydd yn ddoniol, yn drist, yn ystyriol? Ceisiwch ddechrau eich darn ar bwynt dramatig iawn / trobwynt yn eich bywyd er mwyn denu sylw'r gynulleidfa.

YS1: strwythurau ar gyfer ysgrifennu  
YS2: trefnu gwaith ysgrifennu  
YS4: paragraffau ac adrannau  
YI1: iaith briodol  
YI2: geirfa amrywiol  
YG1: strwythurau brawddeg  
YG3: atalnodi  
YG4: strategaethau sillafu  
YG6: llawysgrifen



Tasg 4: Sut arall y gallwn bortreadu fy hun?	Cydweithredu	Llwybrau Posibl y FFLIRh
<p>Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am ffyrdd eraill y bydden nhw'n gallu portreadu eu hunain, a'u trafod. Ceisiwch eu hannog i feddwl 'y tu allan i'r boc's ac i rannu eu syniadau.</p> <p>Gallai dysgwyr wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ dewis cân ac egluro pam mae'r geiriau'n portreadu eu cymeriad neu'u bywyd – neu ysgrifennu cân neu gerdd eu hunain,</li> <li>○ defnyddio ffotograffau a darluniadau i greu collage / clawr CD i ddangos agweddau gwahanol ar eu bywydau</li> <li>○ creu fideo i ddangos clipiau o'u hobiau a'u diddordebau neu siarad â'r camera, ar ffurf ymson</li> <li>○ ysgrifennu blog personol neu ddyddiadur</li> <li>○ creu dawns hunangofiannol</li> </ul> <p>Dylai myfyrwyr ystyried ystod eang o syniadau cyn gwneud penderfyniad terfynol. Rhwch anogaeth iddynt wneud gwaith ymchwil a chynllunio sut y byddan nhw'n creu ac yn datblygu eu portread, er enghraifft, gan ddefnyddio trefnydd graffig.</p>	<p>Gwahoddwch i'r ysgol artist, ffotograffydd portreadau, swyddog y wasg neu gysylltiadau cyhoeddus neu steilydd sy'n gweithio ym myd teledu neu hysbysebu, i edrych ar sut y gall dysgwyr bortreadu eu hunain mewn ffordd arbennig.</p> <p>Edrychwch ar bortreadau ffotograffig o feirdd cyfoes yn <a href="http://www.npg.org.uk/whatson/picturethepoet/learn/resources.php">http://www.npg.org.uk/whatson/picturethepoet/learn/resources.php</a> (Yn cynnwys portreadau o 50 o feirdd, athrawon, adnoddau a deunydd fideo/sain.)</p>	<p><b>Llythrennedd</b> <b>Llafaredd</b> LLS2: cyflwyno syniadau LLG1: ymateb i eraill LLG3: gwrandao ar ddadleuon a'u nodi LLC1: cymryd rhan mewn trafodaethau LLC2: cynllunio'r ffordd ymlaen</p> <p><b>Ysgrifennu</b> YY3: cynllunio gwaith ysgrifennu</p>



<ul style="list-style-type: none"><li>○ Sut rydych chi wedi dewis portreadu eich hun?</li><li>○ Sut y gwnaethoch y penderfyniad?</li><li>○ Sut y byddwch yn cynllunio eich gwaith?</li><li>○ Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd a beth fyddwch chi'n ei wneud gyntaf? Pam?</li><li>○ Beth yw eich nod?</li><li>○ Sut rydych chi'n meddwl y bydd hyn yn eich portreadu?</li></ul>		
--	--	--

## Gweithgareddau eraill a awgrymir

- Ymchwiliwch i'r hunangofiannau sydd wedi gwerthu orau erioed.
- Ymchwiliwch i sut mae enwogion ac eraill yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo eu hunain. Ystyriwch y twf ym mhoblogrwydd apiau megis Instagram a Twitter, ac ystyriwch y strategaethau a ddefnyddir i gynyddu nifer y dilynwyr.
- Ymchwiliwch i sut y gall ffotograffiaeth a phortreadau helpu i greu barddoniaeth greadigol, ynghyd â'r cysylltiadau rhwng cynrychiolaeth weledol ac iaith farddonol. <http://www.npg.org.uk/whatson/picturethepoet/learn/resources.php>
- Edrychwch ar hunanbortreadau o gerddorion (e.e. David Bowie, Bob Dylan, John Lennon, Miles Davis), ac ymchwiliwch i'r cysylltiadau posibl rhwng y gelfyddyd weledol a'u cerddoriaeth.
- Ymchwiliwch i ymsonau dramatig drwy sgrïptiau drama neu glipliau fideo lle mae unigolyn yn siarad am ei fywyd. Trafodwch 'Beth ydw i'n ei wybod am y cymeriad hwn/Beth allaf ei gasglu o'r cymeriad hwn, o'i eiriau?'

## Asesu mewn perthynas â'r FfLIRh

Gall y dysgwyr arddangos nifer o elfennau ac agweddau ar y FfLIRh wrth iddynt wneud y gweithgaredd hwn. Rhestrir y prif feysydd y dylid canolbwyntio arnynt yn y tablau isod.

Llythrennedd			
Llinyn	Elfen	Agwedd	
Llafaredd ar draws y cwricwlwm	Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Siarad	
		Gwranddo	
		Cydweithio a thrafod	
Darllen ar draws y cwricwlwm	Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Strategaethau darllen	
		Darllen a deall	
		Ymateb a dadansoddi	
Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm	Trefnu syniadau a gwybodaeth	Ystyr, dibenion, darllenwyr	
		Strwythur a threfn	
	Ysgrifennu'n gywir	laith	
		Gramadeg; Atalnodi; Sillafu; Llawysgrifen	

Rhifedd	
Llinyn	Elfen
Datblygu ymresymu rhifyddol	Adnabod prosesau a chysylltiadau
	Cynrychioli a chyfathrebu
	Adolygu
Defnyddio sgiliau rhif	Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau
	Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymhareb
	Cyfrifo gan ddefnyddio dulliau meddwl ac ysgrifenedig
	Amcangyfrif a gwirio
	Rheoli arian
Defnyddio sgiliau mesur	Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd
	Amser
	Tymheredd
	Arwynebedd a chyfaint; Ongl a safle
Defnyddio sgiliau data	Casglu a chofnodi data; Cyflwyno a dadansoddi data; Dehongli canlyniadau